O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

Gwnaed *24 Mawrth 2020*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi, a'r tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd os bydd llifogydd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Ebrill 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

2020 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2020

Made *24 March 2020*

Coming into force *1 April 2020*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road and likelihood of danger to the public during potential flooding incidents.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 1 April 2020.

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road that extends in a south-easterly direction from the south-eastern parapet of Pont Fawr at its junction with the B5106, for a distance of 20 metres;

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o barapet de-ddwyreiniol y Bont Fawr wrth ei chyffordd â'r B5106, am bellter o 20 metr.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig tra bo profion yn cael eu gwneud ar y rhwystr amddiffyn rhag llifogydd ar gefnffordd yr A470 yn Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd os bydd cyfnodau o lifogydd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 1 April 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.f

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 24 March 2020

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST, CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst testing exercises are carried out to the flood defence barrier on the A470 trunk road at Llanrwst in the County Borough of Conwy and as a contingency because of the likelihood of danger to the public during potential periods of flooding.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this

gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

ii) gwahardd reidio beiciau pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; a

iii) gwahardd cerddwyr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd y Gorchymyn, a fydd yn weithredol yn ysbeidiol, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Ni ragwelir y bydd ffyrdd ar gau ar gyfer profion mwy na thair gwaith yn ystod cyfnod o 18 mis ac fe'u cynhelir rhwng 05:00 a 08:00. Codir arwyddion gwybodaeth tua 10 diwrnod cyn pob prawf.

Disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol fel y nodir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen cynnal profion pellach neu os bydd tebygolrwydd o lifogydd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice;

ii) prohibit the riding of pedal cycles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice; and

iii) prohibit pedestrians from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice.

The Order, which will operate intermittently, will come into force on 1 April 2020. No more than 3 testing exercises are anticipated during an 18 month period and would be undertaken between the hours of 05:00 and 08:00. Advance information signs will be erected approximately 10 days prior to each testing exercise.

Although the proposed Order is only expected to operate as specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should further testing exercises be required or in the case of potential flooding circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Cau)

Y darn o'r gefnffordd yr A470 yn Llanrwst sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o barapet de-ddwyreiniol Pont Fawr wrth ei chyffordd â'r B5106, am bellter o 20 metr.

SCHEDULE 1
(Closure)

The length of the A470 trunk road at Llanrwst that extends in a south-easterly direction from the south-eastern parapet of Pont Fawr, at its junction with the B5106 for a distance of 20 metres.

ATODLEN 2
(Y Llwybrau Eraill)

i) Dylai cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r de ar yr A470 droi i'r chwith i Heol Dinbych, wedyn i'r dde i Heol Watling i ailymuno â'r A470.

ii) Dylai cerbydau a beicwyr sy'n teithio tua'r gogledd ar yr A470 droi i'r dde i Ffordd Tanyrysgol, mynd ar Ffordd Talybont, wedyn troi i'r chwith i Ffordd Pari i ailymuno â'r A470.

iii) Dylai cerddwyr sy'n teithio tua'r gogledd droi i'r dde i Heol Watling, ac i'r chwith i Heol Dinbych i ailymuno â'r A470.

SCHEDULE 2
(Alternative Routes)

i) Southbound vehicles, cyclists and pedestrians on the A470 should turn left onto Denbigh Street, then right onto Watling Street to re-join the A470.

ii) Northbound vehicles and cyclists on the A470 should turn right onto School Bank Road, proceed onto Talybont Road, then turn left onto Parry Road to re-join the A470.

iii) Northbound pedestrians should turn right onto Watling Street, left onto Denbigh Street to re-join the A470.